OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif. 430 (Cy.61)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Llandarcy i Gwm-gwrach, Castell-nedd Port Talbot) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

*Gwnaed* *17 Chwefror 2011*

*Yn dod i rym* *1 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a chyfyngu arno oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mawrth 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Llandarcy i Gwm-gwrach, Castell-nedd Port Talbot) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr *"*cerbyd esempt*" ("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 1 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 17 Chwefror 2011

***J COLLINS***
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

## HYD A LLED Y GWAHARDDIAD DROS DRO AR BOB CERBYD.

i) Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt o ddechrau'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gylchfan Tonna/Aberdulais i farciau ildio cerbytffordd gylchredol Cylchfan Resolfen.

ii) Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth allanfa Cylchfan Resolfen i drwyniad ffisegol dechrau'r ffordd ymadael i Gylchfan Tonna/Aberdulais.

iii) Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth allanfa Cylchfan Resolfen i bwynt wrth farciau ildio cerbytffordd gylchredol Cylchfan Blaen-gwrach/Cwm-gwrach.

iv) Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth allanfa Cylchfan Blaen-gwrach/Cwm-gwrach i bwynt wrth farciau ildio cerbytffordd gylchredol Cylchfan Resolfen.

## ATODLEN 2

## HYD A LLED Y TERFYN CYFLYMDER 40 MYA A'R TERFYN CYFLYMDER 10 MYA.

i) Y darnau hynny o'r cerbytffyrdd tua'r gogledd a thua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth allanfa Cylchfan Llandarcy i bwynt yng nghanol Cylchfan Aberdulais.

ii) Y darn hwnnw o'r ffordd ymuno tua'r de wrth Gylchfan Aberdulais sy'n ymestyn o ganolbwynt y cyfryw ffordd ymuno i bwynt lle y mae'n uno â'r brif gerbytffordd tua'r de y gefnffordd.